



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
David Jones OBE, DL
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
a
Philip Blaker,
Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn,
Casnewydd
NP10 8UH

14 Rhagfyr 2020

Annwyl Philip a David

Ysgrifennaf yn dilyn fy llythyr cyfarwyddyd dyddiedig 17 Tachwedd, lle nodais y byddwn yn darparu cyfarwyddyd polisi pellach ar ôl imi gael ac ystyried y cynigion polisi a ddatblygwyd gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni. Mae'r cyfarwyddyd hwn wedi'i ddarparu fel atodiad i'r llythyr.

Rwy'n ddiolchgar am y cyngor arbenigol a roddwyd i'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni wrth iddo ystyried opsiynau posibl ar gyfer trefniadau asesu amgen ar gyfer cymwysterau cyffredinol yn 2021. Rwyf hefyd yn croesawu'r ystyriaethau manwl y rhoddwyd sylw iddynt gan fwrdd Cymwysterau Cymru i sicrhau bod y gwahanol opsiynau yn ddilys ac yn deg - roedd eich llythyrau dyddiedig 24 Tachwedd a 1 Rhagfyr yn arbennig o ddefnyddiol yn hyn o beth.

Rwy'n cydnabod yr amgylchiadau anarferol a hynod heriol y mae'r system addysg yn eu hwynebu eleni. Mae'r amgylchiadau hyn wedi tarfu'n sylweddol ac mewn ffyrdd amrywiol ar y dysgwyr, wedi effeithio ar amrywioldeb y profiadau addysgu a dysgu ac wedi creu ansicrwydd o ran sefyllfa iechyd y cyhoedd y byddwn yn ei hwynebu dros y misoedd nesaf. Rwyf hefyd yn llwyr gydnabod mai dim ond hyn a hyn y gall y system cymwysterau ei wneud i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Yn y cyd-destun hwn, rwy'n credu bod y cynigion polisi a argymhellwyd imi gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni yn sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng diwallu anghenion dysgwyr o ran eu llesiant a chefnogi eu cynnydd wrth symud ymlaen, gallu rheoli'r proffesiwn heb gael effaith niweidiol ar yr amser addysgu a dysgu sydd ar gael, a sicrhau digon o dryloywder, cysondeb a chywirdeb i ennyn hyder yng ngallu'r dysgwyr a chefnogi eu cynnydd wrth symud ymlaen – yn enwedig wrth iddynt fynd i addysg uwch. Felly, fy mwriad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


yw mabwysiadu'r cynigion polisi hyn fel fy nghyfarwyddyd polisi ar gyfer y dull gweithredu y dylid ei ddefnyddio mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol y bydd dysgwyr yng Nghymru yn ymgymryd â nhw yn ystod haf 2021. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod mai Cymwysterau Cymru fydd yn gwneud a gweithredu'r penderfyniad terfynol ynghylch trefniadau ar gyfer arholiadau'r haf ac unrhyw drefniadau asesu amgen.

Rwyf wedi dweud yn glir mai'r ateb gorau yw ateb sydd wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r proffesiwn addysg ac rwy'n cydnabod bod rhai elfennau cyflawni allweddol i'w trafod a'u gweithredu o hyd wrth i'r trefniadau gael eu rhoi ar waith. Bydd hefyd yn hollbwysig inni ymateb i anghenion a phrofiadau dysgwyr ac ymarferwyr wrth i'r flwyddyn academaidd fynd rhagddi, felly fy mwriad yw dal gafael ar y Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni. Byddwn yn gwerthfawrogi eich cyngor arbenigol wrth inni gefnogi ystyriaethau'r grŵp.

I gloi, hoffwn ailadrodd fy ymrwymiad i lesiant, tegwch a chynnydd dysgwyr ar gyfer 2021 ac rwy'n hyderus y gallwn, drwy weithio ar y cyd fel sector addysg, oresgyn heriau'r misoedd nesaf a sicrhau bod ein dysgwyr yn cael eu cefnogi yn y ffordd orau bosibl.

Rwy'n parhau i fod yn hynod ddiolchgar am eich cymorth a'ch cyngor parhaus, ac am waith caled ac ymroddiad eich swyddogion.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

CYFARWYDDYD O DAN ADRAN 53 O DDEDDF CYMWYSTERAU (Cymru) 2015

O dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru, rhaid i Cymwysterau Cymru roi sylw i unrhyw agweddau ar bolisi llywodraeth, a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

Cafodd Cyfarwyddyd gan y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru, ei ddyroddi i Cymwysterau Cymru ar 17 Tachwedd mewn perthynas â datganiad polisi Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag arholiadau haf 2021 a'r gwaith o ddatblygu trefniadau asesu amgen ar gyfer dysgwyr yng Nghymru a oedd i fod i sefyll arholiadau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru yr haf hwn er mwyn cefnogi eu cynnydd wrth symud ymlaen.

Roedd y Cyfarwyddyd hwnnw yn nodi manylion polisi Llywodraeth Cymru bod cynigion ar gyfer deilliannau canolfannau yn cael eu llunio ar y cyd â'r sector addysg drwy'r Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni.

Mae'r cynigion hynny yn awr wedi eu datblygu ac mae'r Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni wedi cytuno arnynt a'u cyflwyno i'r Gweinidog Addysg i'w hystyried. Mae copi wedi'i amgáu er gwybodaeth ichi.

Mae'r Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru, yn cyfarwyddo Cymwysterau Cymru i roi sylw i'r materion a ganlyn:

- Polisi Llywodraeth Cymru i fabwysiadu'r cynigion fel y'u nodir yn y ddogfen gonsensws a ddatblygwyd gan y Grŵp Cyngori Dylunio a Darparu ar gyfer dysgwyr TGAU, Safon UG a Safon Uwch yng Nghymru sy'n ymgymryd â chymwysterau cymeradwy Cymwysterau Cymru yn ystod haf 2021. Gellir crynhoi'r cynigion polisi hyn fel a ganlyn:
 - Yr egwyddor o ddull tri philer o ymdrin â chymwysterau cyffredinol sy'n ymgorffori asesiadau nad ydynt yn arholiadau, asesiadau mewnol ac asesiadau allanol, gan gydnabod bod angen ystyried hyn ar sail pynciau penodol gan ystyried strwythurau cymwysterau unigol
 - Dylai asesiadau nad ydynt yn arholiadau, fel y'u haddaswyd gan CBAC, barhau yn ôl y bwriad
 - Dylai asesiadau mewnol gael eu rheoli a'u marcio yn fewnol, ond gan ddefnyddio deunydd asesiadau allanol a ddarperir gan CBAC yn seiliedig ar bapurau blaenorol a addaswyd i leihau baich gweinyddol a sicrhau profiad asesu teg. Dylai ymarferwyr allu arfer barn broffesiynol ynghylch sut a phryd y caiff yr asesiadau hyn eu cyflwyno o fewn cyfnod asesu, fel y gellir eu hymgorffori mewn cynlluniau addysgu a dysgu a chefnogi paratodau'r dysgwyr
 - Dylai asesiadau allanol gael eu gosod a'u marcio yn allanol, ond dylid rhoi gwybod ymlaen llaw am bynciau er mwyn cefnogi'r dysgu. Asesiadau yn yr ystafell ddosbarth fydd y rhain a dylid darparu hyblygrwydd o ran sut a phryd y cymerir yr asesiadau o fewn cyfnod asesu i gefnogi dysgwyr
 - Dylai'r cydrannau hyn fod yn seiliedig ar farciau a dylai CBAC eu defnyddio i bennu'r graddau a ddyfernir i'r dysgwyr
 - Dylai'r dull gweithredu hwn gynnwys y trefniadau angenrheidiol i sicrhau tegwch i ddysgwyr gan gynnwys addasiadau rhesymol, prosesau ar gyfer apeliadau, mynediad at ymgeiswyr preifat a gweithdrefnau ystyriaeth arbennig. O ystyried yr amrywioldeb a gafwyd o ran yr addysgu a'r dysgu, dylid ystyried sut y gellir addasu'r broses ystyriaeth arbennig i gefnogi'r dysgwyr hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf
 - Dylai deilliannau graddau cyffredinol yn haf 2021 adlewyrchu lefel o haelioni sy'n debyg i'r rhai a ddyfarnwyd yn haf 2020

GRŴP DYLUNIO A CHYFLAWNI

MYFYRDODAU A MEYSYDD CONSENSWS Rhagfyr 2020

1. Gydol yr amser, mae'r Grŵp wedi bod yn glir ynghylch ei rôl, sef darparu cyngor a chanolbwyntio ar gynigion polisi. Gyda chymorth Cymwysterau Cymru a CBAC, mae wedi mynd ati i ddeall ac ystyried y goblygiadau gweithredol a rheoleiddiol. Mae'r nodyn isod yn adlewyrchu ei ddealltwriaeth a'i drafodaethau hyd yma, ond cydnabyddir mai Cymwysterau Cymru a CBAC fydd yn gwneud y penderfyniadau gwirioneddol ynghylch asesu cymwysterau a gweithrediad hyn maes o law.
2. Mae'r trafodaethau wedi bod yn eang, gan gynnwys pynciau fel asesiadau diarholiad, cyfres arholiadau mis Ionawr, a dylunio a phennu blaenoriaethau system cymwysterau cyffredinol haf 2021. Mae'r themâu sydd wedi dod i'r amlwg wedi cynnwys y canlynol:
 - a. Pwysigrwydd tegwch i ddysgwyr: yn arbennig chwarae teg o ran eu triniaeth a'u profiad asesu
 - b. Yr angen i achub ar bob cyfle addysgu a dysgu: mae angen i unrhyw ateb fod yn rhan o waith cynllunio ysgol/ coleg ac yn gysylltiedig â hyn yr awydd i sicrhau bod athrawon/darlithwyr a dysgwyr yn parhau i fod yn gyfarwydd â'r deunyddiau asesu a ddefnyddir
 - c. Lleihau'r baich ar athrawon/darlithwyr cymaint â phosibl i'w galluogi i addysgu cymaint â phosibl
 - d. Lles dysgwyr ac effaith paratoi ar gyfer arholiadau, yn ogystal â rhoi saib iddynt o ddysgu cyn iddynt fynd ymlaen i'r cam nesaf
 - e. Uniondeb y system gymwysterau i gefnogi dysgwyr yng Nghymru
 - f. Yr amrywiad parhaus ym marn a safbwyntiau gwahanol ysgolion, colegau a dysgwyr;
 - g. Cydnabod y tarfu sylweddol a pharhaus ar rai ysgolion/colegau ac ail-bwysleisio'r angen i'r trefniadau fod mor hyblyg â phosibl
 - h. Rôl hanfodol disgresiwn a hyblygrwydd yng nghrebwyll athrawon: mai athrawon/darlithwyr sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi eu dysgwyr drwy'r flwyddyn hon

Mae'r Grŵp wedi dod i gonsensws ar nifer o feysydd:

3. Dylai Cymwysterau Cyffredinol haf 2021 fod yn seiliedig ar system tri philer ar gyfer darparu'r dystiolaeth ar gyfer cymwysterau (gan gydnabod bod y gwahaniaeth mewn strwythurau cymwysterau a'r addasiadau a wnaed eisoes yn golygu y bydd angen ystyried cymwysterau unigol fesul achos):
 - a. Aseidiadau diarholiad (lle maent eisoes yn rhan o gymwysterau a addaswyd sy'n bodoli'n barod, er mwyn sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau a thegwch i'r rhai sydd wedi/nad ydynt wedi cwblhau'r rhain), a dylai'r drefn

hon ddilyn yr amserlenni ar gyfer asesiadau diarholiad a welir mewn blynyddoedd arferol

- b. Asesiadau a reolir yn fewnol (gweler paragraff 6)
 - c. Asesiadau a osodir ac a gaiff eu marcio'n allanol (gweler paragraff 7)
4. Nid oes un ateb cyffredinol (ysgolion/ colegau yn ogystal â chymwysterau), a byddai'r Grŵp yn croesawu dull sy'n galluogi athrawon/darlithwyr i arddel peth barn, disgresiwn a hyblygrwydd er mwyn cefnogi dysgwyr. Byddai'r Grŵp yn ffafrio model sy'n cefnogi perfformiad dysgwyr o dan yr amgylchiadau unigryw a geir ar hyn o bryd.
5. Nid oes elfen asesiad diarholiad ym mhob cwrs. Fodd bynnag, yn gyffredinol (a chan gydnabod strwythurau cymwysterau gwahanol), yr hyn roedd y Grŵp yn ei ffafrio oedd y dylai'r cyfuniad o asesiadau a reolir yn fewnol ac asesiadau diarholiad (lle maent yn berthnasol) gyfrannu mwy tuag at radd derfynol unigolyn nag asesiadau a gaiff eu gosod a'u marcio'n allanol (gan gydnabod na fydd hyn yn bosibl/yn ddymunol yn achos pob cymhwyster heb roi dysgwyr dan anfantais – trafodwyd hyn mewn is-grŵp o'r Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni fel rhan o waith enghreifftio CBAC a ystyriodd yn benodol TGAU Mathemateg a TGAU gwyddorau unigol).
6. Tynnodd y drafodaeth ar **asesu mewnol** sylw at nifer o faterion:
- a. Mae pob ysgol/coleg yn cynnal asesiadau mewnol eisoes a gaiff eu rheoli gan athrawon fel mater o drefn fel rhan o'r gwaith addysgu a dysgu, er y gall fod gwahaniaethau o ran dull, cynnwys ac amseriad gwahanol ysgolion/colegau. **Dylai ysgolion/colegau geisio cynnwys yr elfen asesu mewnol yn eu cynlluniau addysgu a dysgu er mwyn lleihau'r beichiau ychwanegol ar y proffesiwn.** Byddai cael eglurder ar y mater hwn yn darparu'r cyfle i leihau asesiadau yn yr ystafell ddosbarth neu roi'r gorau iddynt ac, yn hytrach, gynnig yr opsiynau hyn, gan leihau nifer yr asesiadau *ychwanegol* a gynhelir yn ystod y flwyddyn;
 - b. Mewn egwyddor, dylai'r elfen asesu mewnol (gan gynnwys asesiadau diarholiad) wneud y cyfraniad mwyaf at ddeilliannau gradd dysgwr. Er mwyn rhoi chwarae teg i ddysgwyr, mae'r Grŵp wedi cytuno y dylai **gweithgareddau asesu gael eu darparu'n genedlaethol yn seiliedig ar rannau o'r maes llafur a ddiffinnir yn glir.** Byddai deunyddiau safonedig yn cynnig profiad cyson i ddysgwyr ac yn golygu na fyddai asesiadau yn amrywio o ran nifer na pha mor ymestynnol ydynt mewn gwahanol ysgolion/colegau. Ymhlith yr opsiynau ar gyfer gwneud hyn mae defnyddio hen bapurau i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i gael ei asesu gan ddefnyddio deunyddiau a brofwyd, ac yr aseswyd eu heffaith, neu ddatblygu templedi i ymarferwyr er mwyn eu cefnogi i ddatblygu eu hasesiadau eu hunain. Cydnabuwyd, hyd yn oed gyda chanllawiau a pharamedrau clir yn llywio'r gwaith datblygu, y byddai'r ail opsiwn yn gofyn am broses sicrhau ansawdd ac y byddai mwy o faich ar athrawon yn y pen draw, yn ogystal â'r risg o drin dysgwyr yn anghyfartal. Gallai hyn wedyn greu llwybr newydd ar gyfer

apeliadau a/neu ofyn am lefel o gymedroli, a allai dynnu athrawon oddi wrth y gwaith addysgu a dysgu. Cynhelir asesiadau o effaith asesiadau CBAC ar gydraddoldeb a hygyrchedd i ddysgwyr ac athrawon/darlithwyr eisoes, ac mae dysgwyr yn gyfarwydd â nhw. Byddai defnyddio deunyddiau CBAC yn sicrhau bod y system addysg yn defnyddio adnoddau sydd ar gael eisoes yn hytrach na cheisio creu system newydd yn yr amser cyfyngedig sydd ar gael;

- c. **Dylid ystyried barn athrawon/darlithwyr wrth benderfynu pryd, sut a ble i ddefnyddio'r asesiad hwn** (mae'r opsiynau'n cynnwys cael dewis o hen bapurau; eu defnyddio ar adegau sy'n cyd-fynd â'r cynllun addysgu yn ystod y cyfnod y cytunir arno; eu rhannu i gyd-fynd â'r amserlen addysgu arfaethedig; cefnogi lles drwy amodau asesu mwy hyblyg yn y dosbarth). Mae'r hyblygrwydd a'r disgresiwn hyn yn adlewyrchu'r dulliau addysgu a dysgu gwahanol yn well, yn ogystal â chynnwys y pynciau drwy gydol y flwyddyn academaidd mewn gwahanol leoliadau. Bydd CBAC yn rhoi gwybod pa asesiadau a ddewiswyd yn gynnar fel bod modd iddynt gyd-fynd â chynlluniau addysgu;
- d. **Dylai'r cyfnod o amser ar gyfer yr asesiadau hyn ddechrau yng ngwanwyn 2021** er mwyn galluogi athrawon/darlithwyr i benderfynu pryd sydd orau i'w defnyddio gyda'u dysgwyr, o ystyried yr amser addysgu sydd ar gael, unrhyw darfu, a barnu pryd y byddai eu dysgwyr yn y sefyllfa orau i wneud hyn. Byddai cyfnodau hirach ar gyfer cynnal asesiadau mewnol (ac asesiadau allanol i ryw raddau) yn caniatáu ar gyfer rheoli achosion lle bydd yn rhaid i unigolion neu grwpiau hunanynysu neu lle bydd unrhyw darfu ar ddysgu. Byddai'r cyfnod hwn yn sicrhau nad yw'r broses hon yn gorgyffwrdd â'r elfen asesu a gaiff ei gosod yn allanol. Dylai fod digon o amser rhwng diwedd yr asesiadau mewnol a dechrau'r asesiadau allanol i gael seibiant, ac i gefnogi'r broses addysgu a dysgu yn well. Trafododd y grŵp yr amserlen enghreifftio a ddarparwyd gan CBAC gan gytuno y byddai cyfnod asesu rhwng 22 Chwefror a 23 Ebrill yn briodol, er y bydd angen i CBAC gadarnhau hyn.
- e. Byddai'r athro/darlithydd a'r ysgol/coleg yn rheoli'r gwaith marcio a'r broses gymedroli berthnasol yn y ganolfan, a byddai CBAC yn darparu cynllun marcio i gefnogi'r gwaith hwn. Byddai CBAC yn cynnal proses i wirio'r gwaith marcio a byddai'n cysylltu â'r ysgol/coleg os byddai lefel amlwg o anghysondeb.
- f. Roedd y cynnig ynghylch y defnydd o ddeunyddiau safonedig a gwaith marcio sydd eisoes wedi cael eu profi o ran ystyriaethau tegwch a hygyrchedd yn ystyriaeth bwysig i'r Grŵp. Teimlai'r Grŵp y byddai athrawon a darlithwyr yn gyfarwydd â hen bapurau, ac y gallai hyn wneud y broses asesu yn haws iddynt ei rheoli.

7. Nododd y drafodaeth ar **asesu allanol** nifer o ddisgwyliadau:

- a. Byddai'r asesiadau'n cael eu gosod yn allanol a'u marcio gan CBAC. Byddai athrawon/darlithwyr yn defnyddio eu barn broffesiynol o ran pryd a sut y byddai'r asesiadau'n cael eu cynnal (e.e. yr amseriad ac amodau asesu mwy

hyblyg; y posibilrwydd o rannu'r asesiadau yn gwahanol elfennau fel bod modd eu cynnal mewn gwrs os dymunir gwneud hynny).

- b. Yr egwyddor gyffredinol, ac eithrio pynciau craidd sy'n hanfodol o ran cynnydd a nifer bach o eithriadau lle byddai lleihau'r amser yn gwneud yr asesiad yn anoddach, oedd na ddylai asesiadau allanol ar gyfer TGAU gymryd mwy nag 1½ awr, gan gydnabod nifer y TGAU y mae dysgwr yn eu sefyll a'r dymuniad i atal y teimlad eu bod yn cael eu hasesu'n ddi-baid. Teimlwyd ei bod yn rhesymol i bynciau TGAU craidd bara'n hirach am fod mwy o amser addysgu a dysgu yn cael ei neilltuo i'r pynciau hyn ar amserlenni ysgolion/ colegau. Ni fydd unrhyw gyfyngiadau amser ar gyfer Safon Uwch / UG am fod llai o bynciau. Gallai'r cyfnod asesu allanol fod yn hirach er mwyn cynnig hyblygrwydd os bydd unrhyw darfu, gan nodi'r angen i sicrhau bod modd gwneud y gwaith marcio a sicrhau ansawdd yn unol â'r amserlen ar gyfer diwrnodau canlyniadau. Cytunodd y Grŵp y byddai'r cyfnod rhwng 17 Mai a 29 Mehefin a nodir yn yr amserlen enghreifftio a gyflwynwyd i'w thrafod gan CBAC yn briodol. Mater i CBAC fydd cadarnhau hyn.
- c. At hyn, gallai'r cyfnod gael ei rannu'n 3 is-gyfnod lle bydd pynciau yn cael eu grwpio a bydd ysgolion/ colegau yn cael rhybudd ymlaen llaw o ran ym mha gyfnod y bydd asesiadau pynciau penodol yn cael eu cynnal. Bydd hyn yn sicrhau bod y model yn dal i fod yn hyblyg ac, ar yr un pryd, yn cynnig sgaffaldio strwythuredig, wedi'i gefnogi er mwyn helpu i gynllunio'r addysgu a'r dysgu, a helpu i sicrhau nad yw dysgwyr yn cael eu hasesu gormod. Yn olaf, bydd y dull hwn yn neilltuo amser penodol ar amserlen yr ysgol/ coleg ar gyfer pynciau craidd a phynciau nad ydynt yn rhai craidd fel na fydd yn rhaid iddynt gystadlu â'i gilydd.
- d. Cydnabuwyd y gallai problemau cyflogaeth posibl mewn sefydliadau Addysg Bellach atal cyfnodau asesu rhag para y tu hwnt i'r adeg pan fyddai cyfres draddodiadol arholiadau'r haf yn cael ei chynnal fel arfer.
- e. Yn yr un modd â'r asesiadau mewnol, byddai CBAC yn darparu canllawiau mewn da bryd ar y themâu lefel uchel ar gyfer yr asesiadau hyn fel bod ysgolion a cholegau yn gallu paratoi eu cynlluniau haddysgu a'u hamseru'n briodol.
- f. Caiff arholiadau eu sefyll mewn neuaddau arholiad gyda goruchwylwyr, o dan amodau arholi llym, gyda phawb yn sefyll yr un papur nas gwelwyd ar ddyddiad ac amser a bennwyd yn genedlaethol. Byddai asesiadau allanol yn wahanol i arholiadau am fod y dull asesu yn hyblyg, yn ogystal â'u hamseru ar sail yr hyn roedd athrawon/darlithwyr yn ei ffafrio, a lefel y rheolaeth sy'n gymwys iddynt. Bydd ysgolion a cholegau hefyd yn cael rhywfaint o ganllawiau ymlaen llaw ar rai o'r meysydd allweddol i'w hasesu, er mwyn eu galluogi i gynllunio eu haddysgu a dysgu. Fel y cyfryw, byddant yn gofyn am farn athrawon ond nid i'r un graddau â'r asesiadau mewnol. Yn benodol, byddai barn athrawon, o fewn paramedrau penodol, yn cael ei defnyddio er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch, mewn perthynas â lefel rheoli'r amodau ar gyfer asesiadau a gaiff eu gosod yn allanol ac asesiadau mewnol: roedd y Grŵp yn ystyriol o'r angen i sicrhau diogelwch yr asesiadau, darparu profiad asesu cyson i ddysgwyr ledled Cymru, a phwysigrwydd cydbwysu hynny â

llesiant – yn sgil hyn, bydd is-grŵp yn ystyried datblygu cyngor i sicrhau dealltwriaeth a rennir o'r lefel briodol o reolaeth, a chysondeb yn hynny o beth.

Gwnaeth y Grŵp nifer o **dybiaethau** wrth ddod i'r casgliad hwn:

8. Bydd yr addasiadau presennol a gyhoeddwyd gan CBAC yn parhau ac, fel y cyfryw, ni ddylai unrhyw asesiad fynd yn ehangach na'r rhain [er mai mater i CBAC yw hwn, roedd yn dybiaeth a oedd yn sail i'r drafodaeth].
9. Bydd y model asesu yn seiliedig ar farciau fel bod CBAC yn gallu dyfarnu deilliannau gradd. Byddai ysgolion a cholegau yn cyflwyno'r marciau i CBAC a fyddai'n cyflwyno set o raddau ar ddiwrnodau canlyniadau yn yr un modd â blwyddyn 'arferol'. Byddai disgwyl i'r deilliannau gradd gefnogi dysgwyr yn fwy yn 2021 o gymharu ag adegau 'arferol' (cyn COVID-19) ac, ar y cyfan, adlewyrchu deilliannau 2020, er mwyn cydnabod yr amser addysgu a dysgu a gollwyd a'r tarfu cyffredinol [er bod hwn yn fater i Cymwysterau Cymru, roedd yn elfen ychwanegol o gefnogi dysgwyr a nodwyd yn y cyd-destun hwn]
10. Gallai meysydd llafur, lle y bo'n berthnasol, gael eu rhannu rhwng asesiadau allanol ac asesiadau athrawon, ond byddai hyn yn gofyn am waith pellach i sicrhau eu bod yn parhau'n addas at y diben ac na fyddai cydbwysedd yr asesiadau'n rhoi dysgwyr dan anfantais. Mewn unrhyw achos, byddai'r asesiad mewnol lle y bo'n berthnasol yn cwmpasu meysydd gwahanol i'r asesiad allanol – roedd yn bwysig i'r Grŵp na fyddai dysgwyr yn cael eu hasesu gormod. Byddai CBAC yn darparu manylion yr unedau i'w hasesu'n fewnol a'r rhai i'w hasesu'n allanol, fel bod athrawon/darlithwyr yn gwybod pa bynciau a gwmpesir gan bob math o asesiad.
11. Ni ddylai'r diwrnodau canlyniadau disgwyliedig gael eu newid (i gyd-fynd â Lloegr a Gogledd Iwerddon). Diben hyn oedd sicrhau na fyddai dysgwyr yng Nghymru dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion yn y gwledydd eraill.
12. Byddai angen i apeliadau gael eu cyfeirio at y corff a wnaeth y penderfyniad ar y marciau/dyfarniad. Roedd y Grŵp yn ffafrio model a oedd yn lleihau rôl y canolfannau wrth reoli apeliadau. Byddai'r model a ddatblygir gan y Grŵp yn golygu y byddai angen llwybr apelio i ganolfannau yn seiliedig ar y marc a roddir ar gyfer yr elfennau hynny a asesir gan athrawon/darlithwyr. Byddai apeliadau ar gyfer asesiadau allanol yn cael eu cyfeirio at CBAC. Nododd y Grŵp yr angen i feithrin dealltwriaeth o'r broses fyddai ei hangen pe byddai CBAC yn nodi anghysondeb amlwg wrth farcio asesiadau mewnol, a goblygiadau hynny o ran apeliadau, sicrhau cysondeb rhwng canolfannau, a thegwch i ddysgwyr. Byddai hwn yn fater hollbwysig i'r Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni ei ddeall yn gynnar yn 2021.
13. Nododd y Grŵp y sylwadau clir a wnaed yn haf 2020 na fyddai graddau UG a aseswyd mewn canolfannau yn cyfrannu at ganlyniadau Safon Uwch 2021, a nododd y rhesymau technegol dros hyn yn ogystal â'r rhesymau'n ymwneud â chydaddoldeb. Cafwyd consensws eang ynghylch hyn, yn enwedig eu bod yn glir ac nad oes unrhyw opsiwn amgen teg. Roedd yr [is-] Grŵp o'r farn y *dylai* fod disgwyl i'r graddau Safon UG a ddyfernir yn 2021 gyfrannu at raddau Safon Uwch yn 2022, o ystyried y dull cadarn, cyson a seiliedig ar dystiolaeth a gynigir yn 2021.

14. Byddai'r dull ychydig yn anghyson o hyd i'r rhai sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol a'r dysgwyr hynny sydd hefyd yn astudio cymwysterau a ddarperir gan fyrddau arholi yn Lloegr, y mae'n bosibl y bydd rhai ohonynt yn sefyll arholiadau. Mae hyn y tu allan i gwmpas trafodaeth y Grŵp ond serch hynny yn bwynt i'w nodi.
15. Myfyriodd y Grŵp ar y ffaith y byddai'r dull asesu hwn a drefnwyd yn decach i ymgeiswyr preifat na dull y llynedd, er y byddai angen gwneud rhywfaint o waith i sicrhau bod ymgeiswyr preifat yn gwybod sut a phryd y gallent gymryd rhan mewn asesiadau mewnol ac allanol, a chael gafael ar wybodaeth am yr asesiadau hyn yn unol â'r gefnogaeth a roddir i ddysgwyr eraill, ac unrhyw faterion gweithredol mewn perthynas â risg COVID-19 yn benodol. Byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i hyn, ar y cyd ag ysgolion, ac mae'n bosibl y bydd gan awdurdodau lleol rôl i'w chwarae.
16. Gallai CBAC ystyried proses sy'n defnyddio elfennau o'r broses ystyriaethau arbennig bresennol, er mwyn adlewyrchu'r amgylchiadau heriol rydym yn eu hwynebu eleni. Byddai angen gwneud peth gwaith ar lefel Llywodraeth Cymru hefyd i bennu pa ysgolion a grwpiau blwyddyn y mae'r cyfnodau hunanynysu wedi effeithio arnynt fwyaf.
17. Roedd y Grŵp yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael cymorth gan CBAC i helpu athrawon a darlithwyr i farcio. Roedd yn cydnabod buddiannau posibl dysgu proffesiynol pellach ym maes asesu (gan gynnwys tuag at gymwysterau) ac o'r farn y byddai hyn o gymorth, ond y gallai fod yn ormod o faich y flwyddyn hon o ystyried y pwyslais y mae'r Grŵp yn ei roi ar sicrhau amser i addysgu a dysgu.
- 18.

Y camau nesaf

19. Roedd y Grŵp yn cydnabod yr angen i bawb dan sylw (Llywodraeth Cymru, CBAC a Cymwysterau Cymru) sicrhau eu bod yn cyfathrebu â'i gilydd ar gam cynnar ar bob agwedd ar y broses, a thrwy gydol y broses, er mwyn helpu athrawon/darlithwyr a dysgwyr i gynllunio.
20. Nododd y Grŵp gyfres o faterion ar gyfer y drafodaeth ar y camau nesaf ym mis Ionawr, gan gynnwys:
 - a. Deall y broses o wirio (proses i'w chadarnhau) marciau asesiadau mewnol rhwng ysgolion a cholegau a CBAC a'r gydberthynas â thegwch, cyflawnadwyedd, cysondeb ac apeliadau;
 - b. Trefniadau i gefnogi ymgeiswyr preifat, gan sicrhau bod pob un yn cael yr un cyfle i ennill cymwysterau yn 2021;
 - c. Proses ychwanegol, yn debyg i'r broses ystyriaethau arbennig, ar gyfer 2021 i ystyried amgylchiadau eithriadol sy'n ymwneud â COVID-19;
 - d. Sut i gefnogi ysgolion a cholegau i ddeall proses 2021 (fel gweminarau CBAC), a sicrhau dealltwriaeth o faterion allweddol mewn ysgolion a cholegau gan gynnwys profiadau dysgwyr (i fyfyrion arno ymhellach o fewn y grŵp);
 - e. Canllawiau ar weinyddu asesiadau i athrawon a darlithwyr er mwyn sicrhau y caiff dysgwyr eu cefnogi.

